

Am Eisteddfod..... !!



Cafwyd mwynhad mawr yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ar ei hymweliad â Gwent ym mis Awst. Ond prin i neb brofi mwy o lwyddiant nag Anwen Mai Thomas, Caerffili. Yn wir, aeth adref â phentwr o wobrau, a phob un yn gwbl haeddiannol.

Yn ystod yr wythnos enillodd Anwen Wobr Gyntaf yr Unawd Telyn dan 19. Ar ben hynny enillodd y Rhuban Glas Offerynnol o dan 19. Fel petai hynny ddim yn ddigon, aeth Anwen ymlaen wedyn i ennill Rhuban Glas Offerynnol o dan 19 oed. A chafodd Ysgoloriaeth Leslie Wynne-Evans er cof am Alun H. Jones (a enillodd y Rhuban Glas 70 mlynedd yn ôl) a £1500. Hefyd, enillodd Ysgoloriaeth Rachel Ann Thomas o £500 – i'w ddefnyddio tuag at ei dyfodol cerddorol ar y delyn.

Ond nid unawdydd yn unig yw Anwen. Oherwydd aeth ymlaen i fod yn fuddugol yn y Ddeuawd Offerynnol Agored wrth iddi hi ganu'r delyn ynghyd â Lleucu Parri, Caerdydd, ar y ffliwt.

Mae Anwen yn rhan o Ddawnsyr Bro Taf ac roedd yn rhan o'r grŵp a ddaeth yn ail yn y Ddawns Stepio. Hefyd, llwyddodd hi ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Ddeuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio ynghyd â Branwen, Elwyn ac Ioan. Daeth Bro Taf hefyd yn ail yn y gystadleuaeth Parti Dawnsio Gwerin dan 25 oed - ie, dan 25 oed!

Ond ymhell o laesu dwylo wedi'r eisteddfod, aeth Anwen a'r teulu i aros mewn bwthyn yn Suffolk, tra bo Anwen ar gwrs telyn Ibacus gyda 14 o delynorion ifanc o Gymru, Lloegr, Yr Eidal, Sweden, Ffrainc a Gwlad Belg - cafodd hi amser gwych!

Meddai Grace, mam Anwen, "Ni dal methu credu bod yr Eisteddfod wedi bod yn un mor llwyddiannus iddi." "Clywch! Clywch!", meddwn ninnau.

Mae Anwen eisiau diolch i'w hathrawes wych, Kathryn Rees-Peak, "achos mae'n ffantastig". Cafodd yr athrawes lwyddiant arall, achos mae'n dysgu Aisha Palmer o Ysgol Cwm Rhymni hefyd a enillodd yr unawd telyn o dan 16 oed.



A'r newyddion diweddaraf yw bod Anwen wedi'i phenodi yn Brif Ferch Ysgol Cwm Rhymni am y flwyddyn nesaf.

Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Digwyddiadur: Lowri Jones

Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Oedfaon Capeli Cymraeg Caerffili ar gyfer mis Medi

Tonyfelin

	Bore 10.30	Hwyr 6.00
Sul, Medi 4ydd	Parch Milton Jenkins	Parch Milton Jenkins
Sul, Medi 11eg	Parch Milton Jenkins	Mr Ian Smith
Sul, Medi 18fed	Ym Methel	Ym Methel
Sul, Medi 25ain	Parch Milton Jenkins	Parch Milton Jenkins

Bethel

Sul, Medi 4ydd	10.30	Dr. John Gwynfor Jones
Sul, Medi 11eg	10.30	I'w gadarnhau
Sul, Medi 18fed	10.30 a 6.00	Alun Johnson
Sul, Medi 25ain	10.30	Parchg. William Owen Jones

Mor agos, ac eto.....



Wrth edrych yn ôl ar wythnos odidog y Genedlaethol yn Y Fenni eleni mae un llwyddiant sydd heb dderbyn y sylw na'r clod haeddiannol. Daeth Gareth Williams, yr awdur a'r dramodydd o Nelson, yn ail - a hynny, deallwn yn ail agos iawn - yng nghystadleuaeth y Fedal Ddrama.

Enillodd y ddrama ganmoliaeth y beirniaid, Aled Jones Williams, Catrin Jones Hughes a Ffion Hâf Jones. Y gofyn oedd am, “....ddrama sydd yn dangos yr addewid mwyaf ac sydd â photensial i'w datblygu ymhellach o gael cydweithio gyda chwmni proffesiynol.” Plot cyffrous sydd i “I Ble'r Ei Di F'Anwylyd”. Mawr hyderwn y bydd perfformiad o'r gwaith gan gwmni proffesiynol yn y dyfodol agos.

Mae Gareth ar ganol cyfnod creadigol llwyddiannus iawn ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd ei bedwaredd nofel, “Y Llinach” y llynedd, dilyniant i'w nofel dditectif gyntaf “Y Teyrn”. Bydd darllenwyr yn cofio iddo hefyd ysgrifennu “Gwenyn” (1996) cyn iddo lansio ei lyfr i blant, “Y Ffatri Dywydd” yn Eisteddfod yr Urdd, Cross Keys in 1997.

Bu Gareth yn aelod o'r cwmni drama lleol, Cwmni Cwm Ni, am dros ugain mlynedd a llwyfannodd y cwmni dwy ddrama o'i eiddo. Rhyw ugain mlynedd yn ôl perfformiwyd ei “Ddrama Nadolig” ac ychydig wedi hynny ei gomedi lwyddiannus, “Tennis Bwrdd”. Cafodd darllenwyr “Cwmni” bleser mawr yn gynharach eleni yn dilyn “blog” Gareth wrth iddo ddisgrifio'i fordaith o gwmpas De America.

Cyn iddo ymddeol bu Gareth yn athro Cymraeg ail iaith yng Nghaerdydd a Morgannwg. Ganol cyn ei ddyrchafu'n Athro Ymgynghorol â chyfrifoldeb dros athrawon a ddysgai'r Gymraeg ar lefel uwchradd. Cofir am ei fynych deithiau addysgol i Nant Gwrtheyrn lle cyflwynwyd myfyrwyr o ysgolion lleol i'r diwylliant cenedlaethol yn y Gogledd. Ac mae wedi cynhyrchu nifer o lyfrau ac offer addysgol. Ei ddiddordebau yw pysgota, canu'r gitâr ac “ysgrifennu pan ddaw'r cyfle a'r syniad.”

Yn enedigol o'r Rhyl, mae bellach yn byw gyda'i wraig Pat yn Nelson ers blynnyddoedd lawer. Mae ganddynt dri o blant, Nia, Cai a Lowri. A phleser mawr Gareth, yn ystod ei ymddeoliad, pan nad yw wrth y prosesydd geiriau, yw bod gyda'i wyrion, Iestyn, Beth a Gethin, sydd ond tair wythnos oed, ac yn byw draw ym Mhentyrch.

Genedigaeth.....



Mai 17eg ganwyd merch fach Elys i Joanne a Hywel, Pentwyn Isaf Caerffili, chwaer i Gruffydd a Magi Walker Undery ac wyres i Clive Undery, Caerffili, a Colin ac Ann Walker Deri.

Athrawes yn Ysgol Gymraeg Bro Allta yw Joanne tra bod Hywel yn blismon gyda Heddlu Gwent. Mae'r ddau riant yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ac mae Gruff a Magi yn mynychu Ysgol Gymraeg Caerffili. Maent wedi gwirioni gyda'u chwaer fach newydd.

Ein Hawdur Lleol



Ein pleser yw cynnig ein llongyfarchiadau eto fyth i Thomas Morris, yr awdur ifanc o Gaerffili. Mae cyn-ddisgybl Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cyrraedd uchelderau newydd â'i lyfr *"We Don't Know What We Are Doing."*

Dysgwn fel a ganlyn o ddarllen Cymru Fyw y BBC: "Ar yr 21ain o Orffennaf cafodd seremoni wobrwyo Llyfr y Flwyddyn 2016 ei chynnal yng nghanolfan Tŷ Coch ym Merthyr Tudful. Dyma i chi rai o'r uchafbwyntiau trwy lens y ffotograffydd

Sioned Brichall. Diolchwn i Ffotograffiaeth Sioned a Nia ac i Lenyddiaeth Cymru, a drefnodd y digwyddiad, am ganiatâd i gyhoeddi hyn."

Llongyfarchiadau hefyd i Caryl Lewis am ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn am yr eildro gyda'i nofel "Y Bwthyn". Fe gyflawnodd hi'r gamp am y tro cyntaf yn 2005 gyda'r nofel "Martha, Jac a Sianco". Cafodd y nofel honno ei haddasu yn ffilm ar gyfer S4C ac enillodd chwe gwobr BAFTA yn 2008.

"Roedd 'na drindod o wobrau hefyd i Thomas Morris am ei nofel *"We Don't Know What We Are Doing"*. Mae'n amlwg bod Thomas yn gwybod beth mae'n ei wneud wrth gipio Gwobr y Bobol, y Nofel Saesneg Orau a Llyfr Saesneg y Flwyddyn. Cafodd Thomas gefnogaeth dda gan ei hen ffrindiau yn Ysgol Gyfun Gymraeg Cwm Rhymni."



Yn ein rhifyn blaenorol dywedwyd i Thomas gyrraedd rhestr fer cystadleuaeth arbennig iawn. Deallwn bellach iddo ennill Dyfarniad Somerset Maugham ynghyd â phedwar awdur arall ar Fehefin 21ain.

Ei gyfrol, *"We Don't Know What We Are Doing"* eto oedd yn llwyddiannus ym marn y beirniaid, Philip Hensher, Joanna Kavenna ac Adam O'Riordan. Dyfernir y wobr o £2,500 i awduron sydd o dan 35 mlwydd oed am gyhoeddiad mewn unrhyw gategori. Cyhoeddir y llyfr gan Faber & Faber, un o dai cyhoeddi mawr y cyfryngau Saesneg.



“Mrs Hughes Dawnsio”

Bydd dathlu mawr ddydd Gwener Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni pan dderbynnir un o gymwynaswyr mwya'r Gymraeg yn Aelod o Orsedd y Beirdd. Yn gwisgo'r Wisg Werdd y bore hwnnw yng Nghylch yr Orsedd fydd Anne Hughes, cyn-bennaeth Ysgol Gymraeg Trelyn a hyfforddwraig flaengar dawnsio gwerin ers llawer blwyddyn.



Un o Aberdâr yw Anne yn wreiddiol ac yn un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Gymraeg y dref honno. Roedd yr ysgol honno yn un o Ysgolion Cymraeg cyntaf Cymru, er bod hynny cyn dyddiau addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ac, felly, i Ysgol Ramadeg Aberpennar aeth Anne cyn mynd ymlaen i ennill gradd mewn Hanes a Chymraeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Abertawe.

Wedi ennill cymwysterau i fod yn athrawes, mynd i mewn i'r sector uwchradd wnaeth Anne, fel y tueddai graddedigion wneud yr adeg honno. Ond wedi geni ei phlant a symud i Benallta daeth galw am athrawes yn yr ysgol yr oedd wedi'i dewis ar gyfer ei phlant, sef Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Ac yno y bu'n athrawes yn yr adran

Iau ac adran y Babanod am ryw ddeunaw mlynedd. Treuliodd gyfnod byr ym Mhen-y-Bont cyn i'r cyfle ddod i afael yn yr awenau yn Ysgol Gymraeg Trelyn.

Yn sicr, bu'n athrawes a fu'n fwy na pharod i droedio'r ail filltir, a gwnaeth lawer iawn o waith gyda'r Urdd. Daeth yn ffigwr cyfarwydd iawn y tu ôl i'r bwrdd gweinyddol wrth odre llwyfan yr eisteddfodau Cylch a Rhanbarthol. Ond, fel mae ei dewis o Enw Barddol yn awgrymu, enillodd enw da fel hyfforddwraig dawnsio gwerin a hynny am fod ei diddordeb yn y maes yn ymestyn y tu hwnt i'w gwaith yn yr ysgol. Bu'n un o'r aelodau a sylfaenodd Gwerinwyr Gwent a Dawnsiwr Pen y Fai, ac mae'n dal i fod yn weithgar gyda Dawnsiwr Pen y Fai, yn enwedig ers derbyn dwy glun newydd rhai blynyddoedd yn ôl.

Ond nid dawnsio yw ei hunig dalent. Mae gan Anne lais hyfryd. Mae'n llais digon peraid i ganu unawdau ond mae'n rhy wylaidd i wneud hynny'n rhy aml gan, yn hytrach, ddewis bod yn rhan o amryw gorau ar hyd y blynyddoedd. Ac nid unrhyw gorau, chwaith! Na, bu Anne yn aelod o Gôr Cenedlaethol Cymraeg y BBC am flynyddoedd lawer. A chafodd y cyfle i deithio gyda'r côr i lawer man yn y byd gan gynnwys Israel.

Erbyn hyn mae Anne yn fam-gu. Mae Catrin, ei merch, yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn byw yn Yr Eglwys Newydd, Caerdydd a chanddi ddwy ferch, Mali sydd yn unarddeg a Cadi, wyth oed. Gweithio i gwmni arlwyio mae Wyn ac yn byw yn Chippenham, Slough a chanddo Ellie, sydd yn bump oed a Nathaniel, un mis ar bymtheg. Yn Llundain mae Dylan hefyd yn byw lle mae e'n magu ei blant Wil, naw, a Mathew, pump, yn Gymry Cymraeg.

Mae sawl un wedi dwlu ar ei Henw Barddol a gobeithiwn y bydd “Mrs Hughes Dawnsio” yn dal i hyfforddi am flynyddoedd eto!


..... a genedigaeth arall!



Llongyfarchiadau i Aled a Lynwen John yn Nelson ar enedigaeth Megan Elin ar ddiwedd mis Mai. Mae Gethin Rhys, ei brawd mawr, wrth ei fodd.

Dyma gyfnither newydd i Hawys a Gwydion, plant Dyfrig a Luned, chwaer Aled. A hefyd i Ellis, mab David a Bethan Cambourne, chwaer Lynwen. Ac wrth gwrs mae Nain a Tad-cu, Denzil a Sian John o Gaerffili, a Nanna a Grandad - Ray a Janet de la Taste o Ystrad Mynach wedi dotio gyda'u hwyres fach newydd.

“Cofio Eisteddfod y Fenni”



Mae'r maes carafanau'n wag erbyn hyn, a chaewyd y bwlech yn y berth a roddai fynediad i Faes Parcio C. Mae'r gweithwyr wrthi'n clirio'r Maes ei hun. Cyn bo hir bydd pob arwydd o'r Eisteddfod wedi diflannu o'r tir – ond nid o'r cof, gobeithio. A gobeithio wnawn y bydd

atgofion melys o wythnos hapus, hwyliog a heulog (ar y cyfan!) yn dylanwadu am flynyddoedd i ddod ar bobl yr ardal. Gobeithio'n wir y byddant yn cryfhau'r agweddau positif tuag at Gymreictod oedd mor nodweddiadol o'r ymateb dros y ddwy flynedd diwethaf i'r ymgyrch i godi arian - ac ymwybyddiaeth a chefnogaeth i'r Eisteddfod.

Atgofion melys iawn sydd gen i o wythnos eithriadol yn fy mywyd. Ie, cael bod yn Llywydd yr Ŵyl, wrth gwrs, a'r fraint o draddodi araith o lwyfan yr Eisteddfod ar y diwrnod olaf – profiad gwefreddiol a bythgofiadwy. Ond nid y profiadau hynny fydd yn aros yn fy nghof. Nid yw'r rheiny'n perthyn mor agos at galon yr Eisteddfod â'r profiadau eraill a ddaeth i'm rhan yn ystod yr wythnos.

Ni feddyliais erioed byddwn yn cystadlu ar lwyfan yr Eisteddfod ei hun – ac ennill gwobr hefyd! Ond dyna beth ddigwyddodd ar y dydd Gwener, a phob clod i Eirlys Ashton am drefnu ac arwain parti llefaru Lleisiau Rhymni i lwyddiant yn y Brifwyl. Diolch iddi hi ac aelodau eraill y côr a'n cyfeilydd (heb anghofio Mistar Mostyn y ci) am gymaint o hwyl a mwynhad ar y ffordd i'r Genedlaethol.

Atgof allweddol arall yw cael rhannu'r profiad Eisteddfodol gyda chymaint o ffrindiau di-Gymraeg, a gweld eu bod wrth eu boddau ar y

Maes, wedi eu swyno gan yr holl brofiadau. 'Nobody told me how wonderful it is' meddai un ohonynt wrthyf 'I thought it was just some old men in a field wearing funny clothes'. Mae'n amlwg taw methiant fu'n gwaith cenhadol ni dros y blynyddoedd! Fe'u swynwyd i gyd gan yr Eisteddfod, gan sôn am yr awyrgylch gyfeillgar, garedig a chroesawgar; presenoldeb cymaint o bobl ifanc a theuloedd (i gyd yn siarad Cymraeg - 'amazing'); amrywiaeth y profiadau ar y maes a safon y cystadlu. 'Just like one enormous family' meddai un - gan ychwanegu 'with harps' wedyn.

Roedd siarad gyda chynifer o ddysgwyr hefyd yn brofiad cofiadwy, ac fe fydd dwy sgwrs yn aros yn fy nghof am byth, rwy'n meddwl. Dwedodd Sarah o Bencoed (gynt o'r Rhondda) iddi sylweddoli, wrth fynd ati i ddysgu Cymraeg, cyn lleied a wyddai am Gymru ei hun. Roedd dysgu'r iaith wedi agor drws iddi, a dyfnhau ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o'i gwlad ei hun. Does dim cysylltiadau Cymreig gan Caroline o Wlad yr Haf, ond roedd cyfnod ei mab yn y brifysgol yn Aberystwyth wedi peri iddi hi sylweddoli cyn lleied a wyddai am Gymru. Bu hi a'i gŵr yn Eisteddfod Meifod y llynedd, ac yn bwriadu mynd i Sir Fôn y flwyddyn nesaf. Mae'r anwybodaeth gyffredinol yn Lloegr am Gymru a'r Gymraeg yn gywilyddus, meddai, ac nid yw'n deall pam y mae'r cyfryngau Seisnig yn anwybyddu (ac weithiau'n dirmygu) Gŵyl a diwylliant mor ffyniannus sydd mor agos atynt yn ddaearyddol.

Perthyn y rheswm dros yr anwybodaeth i'r gorffennol, wrth gwrs, a rhaid gwybod a deall ein hanes os ydym am werthfawrogi'n presennol. Ces i'r fraint o agor (a chau) y Lle Hanes eleni, sef y stondin sy'n cyfuno sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau'r Amgueddfa Genedlaethol, y Llyfrgell Genedlaethol, CADW a

gydag arbenigedd lleol cymdeithasau hanes Bro'r Eisteddfod. Sefydlwyd y Lle Hanes yn Eisteddfod Meifod y llynedd, a phrofodd yn arbrawf llwyddiannus iawn. Rhoddwyd cynnig arall arni eleni, a bellach mae wedi derbyn cefnogaeth Llys yr Eisteddfod. Bydd yn rhan annatod o'r Wyl o hyn ymlaen, gobeithio, gan gymryd ei le ar y Maes gyda'r Babell Wyddoniaeth a'r Tŷ Gwerin. Rhydd gyfle unigryw i osod hanes yr ardal yn ei gyd-destun cenedlaethol, a thrwy wneud hynny i gryfhau'n dealltwriaeth o gyd-destun ehangach hanes ein bro.

Ac wrth f'ochr, wrth i fi ysgrifennu hyn, mae llyfr sy'n gwneud hynny mewn dull deheuig a deniadol dros ben. Os ydych am ddeall ein hen hanes, a gweld Capel Gwladus ac

Eglwys St Illtud, Llanhilledd yn eu cyd-destun ehangach, neu weld y cysylltiadau rhwng Pont-y-pŵl a Siapan, Castell Caerffili a Chastell Morlais, darllenwch lyfr gwych Frank Olding, *Archaeoleg Ucheldir Gwent*, a lansiwyd yn y Lle Hanes ddydd Iau'r Eisteddfod. Rhydd gip newydd ar ein hanes, o bersbectif cwbl Gymreig. Mae sail ysgolheigaidd dda i'r llyfr, wrth gwrs, ond mae gan Frank ddull hynod naturiol a difyr o gyflwyno'i wybodaeth. Gobeithio'n wir y bydd y llyfr dwyieithog hwn yn sail i ragor o waith ar hanes ein hardal yn ei gyd-destun ac yn ysbrydoli dysgwyr hefyd i gymryd diddordeb yn eu gorffennol. Gobeithio hefyd y cawn ni'r Hwntws i ddysgu mwy am hanes Sir Fôn yn Lle Hanes yr Eisteddfod yno yn 2017.

Tro Phyllis Thomas yw hi'r mis yma i gyfrannu traethawd gan rhai o ddysgwyr mwyaf gloyw'r ardal. Deallwn i'r gyfres hon fwynhau derbyniad gwresog gan ddarllenwyr a dysgwyr fel ei gilydd.

HYWEL DDA



Cafodd Hywel ei eni tua 880 OC. Mab y Brenin Cadell o Seisyllwg oedd e. Roedd un brawd o'r enw Clydog 'da fe. Yn 928 OC roedd Hywel Dda yn rheoli dros y rhan fwyaf o'r wlad, o Brestatyn i Benfro ac wedi hawlio'r teitl Brenin Cymru.

Roedd Hywel wedi derbyn addysg o'r radd flaenaf, ac roedd safon ei addysg yn cymharu'n dda â safonau heddiw. Roedd e'n rhugl yn y Gymraeg, Lladin a Saesneg. Roedd wedi astudio'r gyfraith, a chafodd e sawl cyfle i astudio systemau cyfreithiol gwledydd eraill wrth iddo fe deithio i Rufain, e.e. rhoi statws cyfreithiol teg i fenywod.


Roedd Hywel yn uchel ei barch ymhlith tywysogion Cymreig eraill yr oesoedd canol. Roedd ei enw wedi ei gysylltu â systemau deddfau traddodiadol adnabyddus Cymreig. Mae'r teitl 'cyfreithiau Hywel Dda' yn cyfeirio at y ffaith bod ei gyfreithiau yn dda ac yn gyflawn.

Daeth y system gyfreithiol yn adnabyddus am ei doethineb a'i chyfiawnder, ac roedd y cyfreithiau ar waith yng Nghymru nes y Ddeddf Uno 1536.

Roedd teyrnasiad Hywel yn un treisgar ond daeth e i gytundeb ag Athelstan, Brenin Lloegr. Buon nhw'n rheoli rhan o Gymru gyda'i gilydd. Rhoddodd e ddefnydd o'i fathdy i Athelstan yng Nghaer, a'r hawl i gynhyrchu ei arian ei hun.

Bu farw Hywel tua'r flwyddyn 950 OC. Cafodd swyddfa a chartref gwreiddiol y Cynulliad Cenedlaethol ei enwi yn Tŷ Hywel er anrhydedd iddo fe.



Mae siambrau gwreiddiol y Cynulliad yn adnabyddus nawr fel Siambrau Hywel, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyrsiau addysgol i blant, a thrafodaethau gyda phobl ifanc. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn Ne Cymru hefyd yn dwyn ei enw.



Canolfan Hywel Dda yn Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Posau'r Plant gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



Yn y CHWILAIR mae 13 gair . Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



canu ffrind pensil

siarad llyfr darllen

cinio ysgol rhedeg

pêl droed cloch rygbi chwarae

Dathlu Pum Mlynedd ar Hugain

Y tro nesaf y byddwch yn ymweld â llyfrgell newydd Caerffili, edrychwch ar y plac gwyrdd sydd ar y wal ger y fynedfa.



Dadorchuddiwyd y plac hwn gan y Cynghorydd Phil Bevan, Cyngor Tref Caerffili a Jean-Jacques Monnier, Lannuon i nodi 25ain o flynyddoedd ers dechrau'r gefeillio rhwng y ddwy dref. Gwelir y ddau yn y llun adeg y dadorchuddio. Ac i nodi ymweliad ein cyfeillion o Lydaw dros bedwar diwrnod gwelwyd eu baner genedlaethol uwchben un o dyrrau'r castell.

Yn ystod y dathlu aethpwyd â'r 47 ymwelydd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni, i Lynnoedd Cosmeston ac i'r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Côr Meibion Cwm yr Aber a'r delynores Sian Williams fu'n darparu adloniant yn ystod y Wledd a gynhaliwyd yn Neuadd Fawr y castell.

Ffilifest 2016

Bethan Jones



Roedd gŵyl Ffilifest eleni yn llwyddiannus iawn gyda 3000 o bobl yn mynychu. Roeddem ni yn lwcus iawn hefo'r tywydd, er iddi lawio ganol dydd, roedd gweddill y diwrnod yn braf iawn. Eleni gwnaeth 15 ysgol ar draws Sir Caerffili gymryd rhan yn yr arddangosiad dawnsio gwerin o dan arweiniad Marie Evans.

Roedd stondinau amrywiol yn gwerthu nwyddau, rhai newydd a nifer sydd yn dod yn flynyddol i Ffilifest. O Blaenafon Cheddar i Gwmni Pizza, cwmni Picau ar y Maen ac amryw o stondinau eraill yn gwerthu nwyddau i'r tŷ a theganau plant. Hefyd, pabell celf a chrefft gydag amryw o weithgareddau yn cael eu rhedeg gan Cari Bailyes.

Tu fewn i'r Neuadd roedd mudiadau lleol, yn ogystal ag ardal gemau fideo, lliwio, piano, gweithdy Minecraft a sinema plant bach yn dangos Will Cwac Cwac, Siwper Ted a Sam Tân. Diolch i S4C am gael defnyddio'r cartwnau. Cafwyd perfformiadau di-ri ar y llwyfan gan ysgolion lleol, y Band Calfari, Band Nantgarw, Band Pres BTM, Heledd Gwynant, Band Samba lleol a Martyn Geraint.

Hoffai staff Menter Caerffili a threfnydd Ffilifest Bethan Jones ddiolch i bawb ddaeth i Ffilifest eleni ac hefyd i'n holl wirfoddolwyr a'r mudiadau oedd yn ein cefnogi. Diolch yn ogystal i Cadw a chastell Caerffili a'i staff sydd yn gefnogol iawn bob blwyddyn.

Am ragor o luniau ewch i wefan Menter Caerffili.
Ffotograffydd - Michelle Huggleston.

Eisteddfod y Cymoedd

4ydd o Dachwedd Ysgol Cwm Rhymni, Y Gwyndy 5:00 o'r gloch

Adran Gynradd

Mae pob cystadleuaeth yn hunanddewisiad oni nodir yn wahanol

1. Unawd Bl 2-4
2. Unawd Bl 5-6
3. Llefaru Bl 2-4
4. Llefaru Bl 5-6
5. Llefaru i ddysgwyr Bl 6 ac iau
6. Unawd Offerynol Bl 6 ac iau
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

7. Deuawd lleisiol Bl 6 ac iau

8. Cyflwyniad Cerddorol /Theatrigr
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio.
Perfformiad heb fod dros 10 munud o hyd.
Mae angen cyflwyno'r sgript a'r thema i'r beirniaid ar y noson

9. Côr Bl 6 ac iau
Perfformiad heb fod dros 7 munud o hyd
1af— £100 + cwpan 2ail - £50 3ydd - £30

10. Dawnsio Unigol Bl 6 ac iau unrhyw gyfrwng. Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 3 munud o hyd

11. Dawnsio Grŵp Bl 6 ac iau unrhyw gyfrwng.
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 4 munud o hyd

Rhoddir gwobr o £50 am berfformiad mwyaf addawol Oed Cynradd

Adran Uwchradd

12. Unawd Bl 7-9
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

13. Unawd Bl 10-13
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

14. Llefaru unigol Oedran Uwchradd
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

15. Llefaru i Ddysgwyr Oed Uwchradd
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

16. Dawnsio Unigol – unrhyw gyfrwng
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio
Dawns heb fod dros 3 munud o hyd

17. Dawnsio grŵp – unrhyw gyfrwng
Dawns heb fod dros 4 munud o hyd
Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio

18. Unawd Offerynnol Uwchradd
Perfformiad heb fod dros 7 munud o hyd

Rhoddir gwobr o £50 am berfformiad mwyaf addawol Oed Uwchradd

Adran Hŷn / Agored

19. Unawd Lleisiol Agored
Perfformiad heb fod dros 7 munud
1af - £75 2ail - £50 3ydd - £25

20. Unawd Offerynol Agored
Gellir defnyddio cyfeilydd personol os dymunir. Perfformiad heb fod dros 8 munud
1af - £75 2ail - £50 3ydd - £25

21. Unawd Canu Emyrn. Unrhyw emyrn allan o Caneuon Ffydd
1af - £25 2ail - £20 3ydd - £10

22. Unawd Sioe Gerdd Agored
Gellir defnyddio cyfeilydd personol os dymunir. Perfformiad ddim yn hwy na 7 munud. Caniateir perfformio yn Saesneg os dymunir
1af - £50 2ail - £30 3ydd - £20

23. Llefaru Agored Unigol
Cyflwyniad hunanddewsiad heb fod dros 6 munud ac fe ellir tynnu oddi ar unrhyw ffynhonnell
1af - £50 2ail - £30 3ydd - £20

24. Grŵp Llefaru Agored
Cyflwyniad o 1 darn yn unig. 1af - £50

25. Côr Ieuencid Bl 13 ac iau
Perfformiad ddim yn hwy na 10 munud
1af - £100 + cwpan 2ail - £50 3ydd - £30

26. 2awd, 3awd a 4awd Cerdd Dant : hunan-ddewisiad 1af - £50

27. Parti neu Gôr Cerdd Dant: hunan-ddewisiad 1af - £50

28. Parti / Côr Gwerin Agored: hunan-ddewisiad 1af - £50
Perfformiad heb fod dros 5 munud o hyd

29. Grŵp Dawnsio Agored: hunan-ddewisiad 1af - £75

Gellir defnyddio cerddorion byw neu gerddoriaeth wedi ei recordio

30. Côr Agored: hunan-ddewisiad
Perfformiad ddim yn hwy na 10 munud
1af - £250 + cwpan 2ail - £100 3ydd - £50

31. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

(Awst 2016 – Gorffennaf 2017)

Ensemble Lleisiol 10-26 oed (rhwng 3 a 6 mewn nifer)
Hunan-ddewisiad gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant.

Geiriau Cymraeg

Perfformiad – dim mwy na 4 munud

Rhaid sicrhau copiau i'r beirniad a'r cyfeilydd

Bydd ennill mewn dwy Eisteddfod leol – a dwy yn unig – rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2016 a diwedd Gorffennaf 2017 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2017 am wobrau o £150, £100 a £50

Adran Lenyddiaeth

32. Cystadleuaeth Lenyddol Agored i blant Oedran Cynradd

Gwobr o £25

Thema: Agored

33. Cystadleuaeth Lenyddol Agored i blant Oedran Uwchradd

Gwobr o £25

Thema: Agored

34. **Limerig** i gynnwys y llinell
Aeth Neli ar ôl bod yn nofio. £10

35. **Cerdd** Heb fod dros 50 llinell ar y
thema ARWR £10

36. **Englyn**: HEDDYCHWR £10

37. **Llinell Goll** – Cystadleuaeth ar gyfer
noson yr Eisteddfod
Gofynnir am dâl o £1 ar y noson i gystadlu

Adran Ffotograffiaeth

Agored i unrhyw oedran

Cystadleuaeth 'Hunlun y Cwm' £10

Cyfes o luniau ar y thema 'Natur' £10

1. Gellir danfon rhain eleni yn ddigidol at yr Eisteddfod trwy gyfeiriad e-bost yr Eisteddfod

2. Derbynnir y mathau canlynol o luniau - Jpeg / Tiff / PDF

3. Wrth ddanfon y lluniau at yr Eisteddfod, derbynnir y gellir cyhoeddi'r lluniau ar wefan yr Eisteddfod ac yn y Papur Bro lleol – "Cwmni"

4. Gofynnion cystadleuaeth Hunlun y Cwm yw eich bod yn tynnu "selfie" gyda golygfa eiconig o'r Cwm yn y cefndir.

Am fwy o wybodaeth:

Luned Jones: 02920 861281

31 Heol Chwarel Clark

Ene'rglyn

CAERFFILI CF83 2N

ebost:

eisteddfodycymoedd@gmail.com

Gwefan:

www.eisteddfodycymoedd.cymru

CYMRIGEIDDIO EICH FFÔN

Diolch i Cerys Gruffudd am roi sut mae cael brawddeg Gymraeg ar eich Iffon / Ipad yn nodi i'r neges gael ei gyrru oddi yno:

Mynd i SETTINGS MAIL / CONTACTS / CALENDARS tua 3/4 ffordd i lawr mae yna SIGNATURE Newidiwch "Sent from my Ipad" i beth bynnag yr hoffech ei roi yna e.e. "Gyrrwyd o'm Ipad", "Gyrrwyd o'm Ipad/Sent from my Ipad", "Gyrrwyd o Iffon Maelgwyn"

Merched y Wawr Cwm Rhymni (1)

Ar ein trip haf eleni aethom i'r Fenni, cartref Eisteddfod Genedlaethol 2016.

Gwnaethpwyd lle i ni ym mwyty prysur a phoblogaidd Ysgubor y Degwm, ger Eglwys y Santes Fair. Felly trwy gydol y dydd bu'n bosib i ni ddychwelyd i'n cornel yno i orffwys, mwynhau disgled a hefyd lluniaeth ysgafn, rhwng ymweld â chymaint â allen o olion hanesyddol y dref hon.

Yn wreiddiol, lle i gadw'r degwm, sef y trethi a gasglwyd oddi wrth y bobl yn byw ar ystâd y mynachod gan fynychu y priorddy, oedd yr ysgubor hon. Erbyn heddiw fe'i defnyddir fel cartref i arddangosfa yn olrhain hanes yr ardal dros fileniwm, i frodwaith arbennig y Fenni a bwyty llewyrchus.

Tywyswyd ni oddi amgylch y dre gan Elin Jones, ein llywydd, ac wrth gwrs Llywydd Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni eleni.

Fe ddechreuon trwy ymweld ag Eglwys y Santes Fair. Priorddy ar gyfer Mynachod Benedictaidd ydoedd, a sefydlwyd yn 1087 yn ystod teyrnasiad Harri I gan Hamelin de Ballon, Arglwydd Normanaidd cyntaf Y Fenni. Ar ôl Diddymiad y Priorddy ym 1543 daeth yn Eglwys y Plwyf. Buom yn edrych ar gasgliad yr eglwys o gerfluniau canoloesol marmor, alabaster a phren a hefyd gwelsom y cerflun byd enwog o'r 15fed ganrif - rhan o goeden Jesse.

Lan llofft yn yr Ysgubor arddangosir tapestri cywrain o waith trigolion lleol a grëwyd gan 60 o wirfoddolwyr i ddathlu'r mileniwm. Fe gymerodd dair blynedd a deng mis i'w gwblhau ac mae'n 24 troedfedd o hyd. Ynddo darlunir digwyddiadau allweddol yn hanes y Fenni ers sefydlu'r Priorddy, gan gynnwys ymosodiad Owain Glyndŵr yn 1404.

Fe droedion strydoedd cefn Y Fenni gydag Elin er mwyn iddi roi naws a syniad i ni o hanes y dre trwy ddangos darnau o adeiladau gwahanol adegau mewn hanes, sy nawr wedi eu cynnwys mewn adeiladau busnes, tai bwyta, tafarndai, ag ati, ac eraill yn adfeilion.

Dangosodd faes yr Eisteddfod i ni a synnon mor agos oedd i'r dref. Mae muriau a thyrrau'r castell sy'n dyddio o'r 13eg ganrif ac ers 1959 bu'r castell yn gartref i Amgueddfa'r Fenni.

Rhwng 1834 a 1853 trefnwyd 10 eisteddfod yn Y Fenni gan Gymreigyddion Y Fenni. Noddwyd yr eisteddfodau hyn gan Augusta Hall, Arglwyddes Llanofer, a adwaenwyd hefyd wrth ei henw barddol Gwenynen Gwent. Bu hi a'i gwr Syr Benjamin Hall (a roddodd ei enw i "Big Ben") ymhlith eraill yn gweithio'n ddygn dros yr iaith Gymraeg. Ymwelodd y Genedlaethol â'r Fenni ym 1913 ac ers 2002 fe gynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus

flynyddol yn y dref. Roedd yn digwydd ar ddiwrnod ein trip ac fe gawsom wahoddiad i ddod i gael cip ar y rhagbrofion yn y prynhawn a'r gyngerdd gyda'r nos

Galwon yn y farchnad dan do a bu'n bosibl gwneud awr fach o siopa yn y dre cyn swper blasus mewn bwyty Eidalaid. Roedd bron pawb wedi cael tipyn o lwc gyda'u siopa. Bu'r tywydd yn garedig a chawsom ddiwrnod pleserus, hamddenol, gyda chwmni heb ei ail - a phawb wedi blino'n siwps erbyn cyrraedd adre.



Y Brawd Bach yn Dilyn ei Chwaer Fawr

Dyna oedd canlyniad anarferol ac annisgwyl Seremoni Cadeirio Ysgol Gymraeg Caerffili eleni. Enillodd Ryan Coombes, gyda'r ffugenw "Hal Robson-Kanu", y Gadair yn union fel y gwnaeth ei chwaer Leah y llynedd. Atgoffodd y beirniad y gynulleidfa hefyd mai gwir Gymro oedd y chwaraewr disglair a defnyddiwyd ei enw'n ffugenw oherwydd, er gwaethaf yr enw anghyfarwydd, un o Gaerffili oedd ei fam-gu.

Yn wir, roedd y beirniad, Dafydd Islwyn, un sydd mor hoff o ddilyn campau'r bêl gron, wrth ei fodd o weld cymaint fu dylanwad ein tîm pêl-droed cenedlaethol llwyddiannus ar y gystadleuaeth eleni. Defnyddiwyd enwau dros hanner y tîm yn ffugenwau gan awduron y storïau. Ac nid yn unig hynny ond roedd nifer wedi selio'u storïau ar ddigwyddiadau ym myd y bêl gron.

Yn ail yn y gystadleuaeth oedd Tristan Lee. Dan y ffugenw "Gary Speed" roedd yr awdur hwn wedi dangos gwybodaeth anhygoel o ffeithiau'r gamp bêl-droed wrth lunio ei stori. Yn y drydydd safle oedd Arwen Riding a ysgrifennodd dan y ffugenw "Cinderella" Ysgrifennodd hi'n ddeallus drwy lunio stori am effeithiau bwllo a sut y gellid goresgyn digwyddiadau mor ffiائد.

Yn ei feirniadaeth, talodd Dafydd Islwyn deyrnged dwymgalon i'r plant am eu gwaith ac am y sawl a wnaeth eu tywys tuag at ysgrifennu i safon mor glodwiw.

Pleswyd y beirniad yn fawr iawn gan y defnydd dychmygus a gafwyd o idiomau a throsiadau, cymaint felly fel y teimlai y byddai wedi hoffi dwyn ambell frawddeg! Tynnodd sylw'r gynulleidfa at ymadroddion, megis "cododd Jac mor gyflym â Jac-yn-y-Bocs"; "traffordd brysur, lwydaidd"; "yn arogl fel sanau fy nhad"; "y bws yn chwythu ei blwc"; "torrodd trwy ganol y cae, pasiodd i Ramsay a reolodd y bêl cyn rhoi'r bas a ddaeth â gôl...". Ond yr hyn a ddiffiniodd yr enillwyr, meddai'r beirniad, oedd gallu'r tri awdur ar y brig i'w dynnu i mewn i'r stori a'i dywys ar daith.

Cadeiriwyd y llenor buddugol gan osgordd raenus a ffurfiwyd gan ddisgyblion Blwyddyn Pedwar. Disgyblion Blwyddyn Pedwar fu'n chwarae'r ffanffer a disgyblion Blwyddyn 4 a 5 a ganodd Gân y Cadeirio.

Ac am y tro cyntaf yn hanes cystadleuaeth sy'n mynd yn ôl ddeng mlynedd ar hugain, fe'i cynhaliwyd yn neuadd newydd yr ysgol. Seremoni osgeiddig mewn gosodiad gwyh.



Diolch i Sid Head am y llun

Dathlu Priodas AUR



Priodwyd Dafydd Islwyn Huws a Suzanne Davies yng nghapel y Methodistiaid, Llangrannog, ddydd Sadwrn 6ed o Awst 1966.

Y gwas priodas oedd Einion, brawd hynaf y priodfab, ac roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Edward Huws, brawd arall, ynghyd â D. J. Evans, gweinidog y capel a'r Athro Gwilym H. Jones, Aberystwyth, cynweinidog y teulu yn Sir Fôn. Dymunwn flynyddoedd o hapusrwydd i'r ddau yn eu cartref ym Margod yng nghwmni eu merch, Hunydd Angharad.

MERCHED Y WAWR CWM RHYMNI (2)

Ers blynyddoedd bellach, yn ystod yr haf, rydym yn mynd ar ymweliad gyda'r nos â gardd leol. Eleni buon yng ngardd Fferm Croesllanfro yn Y Tŷ Du (Rogerstone). Un o'r gerddi ydyw sy'n perthyn i'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol a felly aeth ein tâl mynediad tuag at elusennau a benodwyd eisoes gan y Cynllun. Roedd yn noson braf a chawsom groeso heb ei ail gan Liz a Barry Davies yn eu cartref arbennig a achubwyd pan yn adfeilion a'i atgyfodi i'w ysblander presennol. Dangoswyd lluniau i ni o weddnewidiad yr adeiladau, gan gynnwys y tŷ, ysgubor y degwm o'r 19eg ganrif cynnar. Dengys y llun ein haelodau y tu allan i'r sgubor. Hefyd, dwy erw o ardd, lle roedd digon o gorneli tawel, prydferth i guddio er mwyn synfyfrio. Cawsom lased o win tra'n sgwrsio â'r perchnogion a oedd wedi dotio ar y ffaith bod grŵp Cymraeg eu hiaith wedi glanio yn eu gardd ac yn synnu ein bod yn cymdeithasu'n hollol gartrefol a naturiol yn y Gymraeg.



Mae'r pâr yn berchen ar fodur "Morgan", un o foduron mwya eiconig yr ugeinfed ganrif yn ôl y gŵr! Roedd draig goch wedi ei pheintio ar hyd y cerbyd ac fe'n gwahoddwyd i eistedd ynddo pe dymunem, tra'n bod yn tynnu lluniau o'r profiad. Roedd yn noson i'w chofio. Ar y ffordd adre galwon yn nhafarn Rhiwderin am bryd o fwyd bendigedig.

Mae'r pâr yn berchen ar fodur "Morgan", un o foduron mwya eiconig yr ugeinfed ganrif yn ôl y gŵr! Roedd draig goch wedi ei pheintio ar hyd y cerbyd ac fe'n gwahoddwyd i eistedd ynddo pe dymunem, tra'n bod yn tynnu lluniau o'r profiad. Roedd yn noson i'w chofio. Ar y ffordd adre galwon yn nhafarn Rhiwderin am bryd o fwyd bendigedig.

Cymerodd amryw o'n haelodau ran mewn gwahanol agweddau o'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni eleni, a hi ar ein stepen drws.

Aethom i wrando ar rai o ferched y Cwm mewn cystadleuaeth lefaru. Fe adroddon i gyfeiliant iwcelesi a phan gipion y drydedd wobwr bu tipyn o ddathlu. Bu Elin Jones, llywydd ein cangen, yn traddodi ei haraith fel Llywydd yr Ŵyl ar y Sadwrn olaf ac yn ôl ei harfer, cyflwynodd anerchiad arbennig a doeth o lwyfan yr Eisteddfod.



Ar y prynhawn olaf, ymgasglon ym Maes D i gyd- ganu gyda'n grŵp iwcelesi lleol a oedd wedi ymuno am awr fach gyda cherddorfa iwcelesi Caerdydd. Cawsom dipyn o hwyl ar ddiwrnod crasboeth. Am ffordd ddymunol iawn o dreulio oriau ola'n hymweliad â'r Eisteddfod hynod lwyddiannus hon.

Yn ystod yr wythnos rhoddod damaid o help llaw ar stondin Cenedlaethol y mudiad. Tra yno, clywon y newyddion bod prosiect ein llywydd cenedlaethol, sef gwerthu ategolion, megis mwclusau, sgarffiau, broetshis a beltiau, wedi codi dros £37,000 i gefnogi Sefydliad y Galon Cymru, sy'n weithgar iawn yn ariannu

ymchwil nyrsus arbenigol, yn ariannu diffibrilwyr lle mae'r angen, ac yn cynhyrchu pamffledi gwybodaeth dwyieithog.

Os hoffech mwy o fanylion - cysylltwch â Gaynor ar 07984 197629 / gaynorw555@gmail.com

Colofn y Dysgwyr Ann Lewis

Helo bawb. Gobeithio i chi fwynhau'r haf. Fuoach chi yn yr Eisteddfod yn *Y Fenni* tybed? *Yn draddodiadol* mae eisteddfod yn gyfle i feirdd *gystadlu* ac rydyn ni'n mynd i edrych ar waith rhai *beirdd* dros y misoedd nesaf.

Ydych chi'n hoffi *barddoniaeth*? Mae rhai pobl yn meddwl bod barddoniaeth yn Gymraeg yn *rhy anodd* i ddysgwyr ond dw i ddim yn cytuno.

Dyma gerdd o'r enw **Cariad** (Love) gan Cris Dafis:

**Mae datganiad o gariad
yn debyg i gar
a ball gychwyn.
Ond unwaith yr â'r
cog cyntaf
i'w le
gall rhywun yrru am byth.
Nes bo'r petrol
yn rhedeg
mas.**



Mae'r gerdd yn sôn am gariad, mae hi'n *gerdd serch* ond dyw hi ddim yn draddodiadol! Mae dweud wrth rywun eich bod yn ei garu yn anodd, fel dechrau injan car sy ddim yn rhedeg yn dda. Unwaith mae *perthynas* wedi dechrau, a'r ddau berson mewn cariad mae popeth yn wych. Mae'r ddau yn meddwl byddan nhw gyda'i gilydd am byth ond mae'r bardd yn *sinigaidd* : yn y diwedd mae pob car yn rhedeg allan o betrol a phob *carwriaeth* yn gorffen. Yr *agwedd* yma a'r *ddelweddaeth fecanyddol* sy'n gwneud y gerdd yn ddiddorol ac yn fodern. Cofiwch fod y gerdd yn *rhamantus* hefyd wrth sôn am y car yn gyrru 'am byth'

Y Fenni : Abergavenny

cystadlu : to compete

datganiad : a declaration

am byth : for ever

sinigaidd : cynical

delweddaeth fecanyddol : mechanical imagery

yn draddodiadol : traditionally

barddoniaeth : poetry

a ball gychwyn : that refuses to start

cerdd serch : a love poem

carwriaeth : love affair

beirdd : poets

rhy anodd : too difficult


i'w le : into place


perthynas : a relationship

agwedd : attitude

rhamantus : romantic

Atebion Posau'r Plant





Dewch gyda ni ar daith Gymraeg o gwmpas y castell. Te, cacen a chlone ar ôl y daith.
Opsiw'n i fynd o gwmpas y parc gydag arbenigwr natur
£8 y person 1 o'r gloch dydd Gwener 30ain o Fedi 2016

Happy Snappers  **Lluniau Llawen**

Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

 **Bargoed Chiropractic**
01443879396

Pwyllgor Cymdeithasu Caerffili yn cyflwyno

Heffa Drysor Car
Treasure Hunt by car

Dydd Sadwrn Medi 24 2016
Saturday September 24, 2016

@ 14:00

Dechrau yn Starting at
Tysers Arms, Nelson

£5 y car per car

Adidas i'r toulu cyfan
Suitable for the whole family

I gofrestur cysylltwch To register contact:
bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443 820913

mentercaerffili.cymru

Trefnu Blodau
Welsh Language sessions

Dosbarth bob pythefnos Fortightly classes

Dechrau Dydd Llun Starting Monday
Medi 19 September, 2016
18:30-20:30

£5
y sesiwn per session

Ystafell Gwaith Coed Woodwork room,
Safle Y Gwyndy Y Gwyndy Site,
Cwm Rhymini, Caerffili
(mynedfa nos drwy'r ganolfan chwaraeon)

Llyfrau'r ENFYS cyf
Vikki Alexander
E-bost-Llyfrau'enfys.cymru
Wefan/website - www.rily.co.uk
Facebook/llyfrau'enfys
07970172754

Llyfrau Gymraeg a ddwyieithog arbennig i bob oedran!

TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

022 362364 neu 07914 355195

[facebook.com/tacsigorsafcaerffili](https://www.facebook.com/tacsigorsafcaerffili)



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd

Canolfan Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach

SADWRN SIARAD Medi'r 24ain

10:00 – 12:00

Cyfle i ymarfer eich Cymraeg ac i godi arian tuag at elusen Macmillan

Bethan Jones. Menter Iaith 01443 820913

Clwb Llyfrau "Cwmni" Tŵr y Lyfrgell NEWYDD

Caerffili
2 o'r gloch

Medi 5ed

"Llweh yn yr Haul" Marlyn Samuel

Hydref 3ydd

"Iddew" Dyfed Edwards

Tachwedd 7fed

"Rhyd y Gro" Sian Northey

Rhagfyr 5ed

"Saith Cam Iolo" Aled Evans

Manylion:02920889827

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach

Saib@Siloh — gyda'r Salmau



BEIBL BYW

Cyfarfod defosiynol – croeso i bawb
10.30 – 11.30 ar fore Llun

5 Medi – Fel plentyn bach (Salm 131)

Astudiaeth Llunïaeth Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk

01443 813617

Medi 7—Taith Llwybr Gefail Machen—Cwrdd wrth Maes Parcio Parlwr

Hufen Ia Basil a Rusty CF83 8JE

September 7— Machen Forge Trail—Meet at Basil and Rusty's Ice Cream Parlour Car Park
CF83 8JE

Medi 14 - Maesycwmmmer— Cwrdd wrth maes parcio tafarn yr 'Angel' CF82 7PH

September 14— Maesycwmmmer—Meet at the Angel car park CF82 7PH

21 Medi—Cyfarfod Cynllunio Clwb Cerdded— Cwrdd yn swyddfa Menter Caerffili Suite 1, Parc St Margarets CF81 9FW

21 September - Clwb Cerdded route planning meeting - Meet at the Menter Caerffili
Office, St Margarets Park CF81 9FW

07835877612 (ar y dydd) morganroberts@mentercaerffili.cymru



#PethauBychain



Cwrs Ceginio

Welsh Language sessions

Bob pythefnos Fortnightly

Dechrau Nos Lun, Medi 26

Starting Monday, September 26

18:30 - 20:30

Ystafell Ceginio Cooking room

Safle Y Gwyndy, Caerffili

(Mynedfa drwy'r ganolfan chwaraeon)

Entrance via leisure centre at the back)

£5 y sesiwn each session

Sesiynau ceginio bob pythefnos,
o dan arweiniad Eluned Scott.

Bydd ryseitiai amrywiol
a chyfle i gymdeithasu.

Rhaid i chi ddod a chynhwysion
eich hunain.

Fortnightly cooking sessions
with Eluned Scott.

There will be various recipes
and an opportunity to socialise.

You must bring your own ingredients.


Cysylltwch i dderbyn manyllion pellach
Contact to receive further information

mentercaerffili.
.cymru



01443820913 bethanjones@mentercaerffili.cymru

Llun y Mis gan Dorne Morgan



Merched y Wawr Cwm Rhymni
CROESO 'NÔL



Cymdeithasu a Lluniaeth

7:30

Nos Fercher, 21ain o Fedi
Festri Bethel
Dewch yn llw!

Cwmni

Cyfarfod Blynyddol

einpapur bro

7:00

Nos Fercher 14eg o Fedi
Ysgol Gymraeg Caerffili

Croeso cynnes i bawb

Dewch i fynegi'ch barn!